# Llythyr Bugeiliol yr Esgob, Ebrill 15fed, 2020

*"...dyma'r gwragedd yn rhedeg ar frys o'r bedd i ddweud wrth y disgyblion. Roedden nhw wedi dychryn, ac eto'n teimlo rhyw wefr." (Mathew 28.8)*

Mae hi'n glir o'r hanesion yn yr Efengylau bod Atgyfodiad Iesu wedi dal y disgyblion yn ddisymwth. Mae'r straeon yn y pedair Efengyl ychydig yn wahanol, ond un dolen-gyswllt rhyngddyn nhw ydy ymateb dryslyd ac anniben y disgyblion: anobaith, gobaith, ffydd, anghrediniaeth, ac yma yn Efengyl Mathew, "dychryn... a gwefr."

Aeth rhai o'r gwragedd allweddol at y bedd yn gynnar ar fore'r Pasg, gan fwriadu gorffen y broses o bêr-eneinio a disgwyl gorfod canfod ffordd i fynd i'r afael â'r dasg sylweddol o symud y garreg oedd yn selio'r bedd; fodd bynnag, dychwelyd wnaethon nhw wedi profi golygfa'r bedd gwag a phresenoldeb angylaidd fu'n cyfleu neges yr atgyfodiad. Fe blannodd hynny obaith yn eu calonnau, ond hefyd penbleth llwyr, gan eu gadael heb wybod yn iawn beth i'w gredu.

Mae'r cymysgedd hwn o emosiynau'n debyg iawn i'r hyn mae llawer ohonon ni'n ei brofi ar hyn o bryd. Dyma ni'n cael profi hyfrydwch y Gwanwyn, cyfnodau gwerthfawr yng nghwmni'r teulu, un ai ar yr aelwyd neu trwy'r cyfryngau cymdeithasol, ond hefyd ofn yr haint, y newyddion dyddiol torcalonnus am anwyliaid a chymaint o rai eraill yn dioddef, gan greu pair o deimladau cymysg. Ydyn ni i fod yn hapus, trist, ofnus neu'n llawen?

Neges ganolog yr ymweliad â'r bedd ydy mai Duw sy'n cymryd pwysau trwm y garreg sy'n selio'r bedd, gan ei symud trwy ei weithred yn codi Iesu o farw'n fyw. Ei ddymuniad ydy cymryd yr hyn sy'n pwyso'n drwm arnon ni a'n llenwi ni â llawenydd bywyd a gobaith newydd. Nid bod Duw trwy ryw hud a lledrith am symud yr heriau, ond yn hytrach yn ein galw i'w ystyried trwy bersbectif newydd, lle mae grym ac addewid yr Atgyfodiad yn datgan bod buddugoliaeth, yn Nuw, i'w gael.

Y cwestiwn ydy p'un ai a wnawn ni ganiatáu i Dduw weithio'r newidiadau sydd eu hangen ar ein calonnau, a throi ein gogwydd tuag at lawenydd. Gan ein bod bellach wedi dathlu Pasg rhithiol, cawn ein hatgoffa nad hanes yr hyn ddigwyddodd bryd hynny yn unig ydy'r Atgyfodiad, ond sut mae Iesu'n ceisio dod â bywyd newydd i'n sefyllfaoedd heddiw. Mae'n ddigon posib ein bod yn wynebu'r wythnosau sydd i ddod gydag ymdeimlad o ofn - mae'r posib inni ddal yr haint yn dal yn real iawn - ond mae Duw am ein hannog i fynd ymlaen mewn llawenydd hefyd, gan wybod fod Iesu wedi ennill y fuddugoliaeth dros beryglon y drwg, dioddefaint a marwolaeth i ddod yn ffynhonnell bywyd, nerth a gobaith.

Rydw i'n ddiolchgar i bob un o'm clerigwyr sydd wedi bod yn canfod ffyrdd newydd o ddod â chymorth a chysur ichi, a ffyrdd dyfeisgar i'ch gwadd i addoli ac at ffydd yn yr amser hwn. Mae'r rhan fwyaf o'r hyn dwi wedi'i weld o safon eithriadol, gan wneud imi ystyried ein bod yn dysgu dull newydd o fod yn Eglwys rithiol a fydd yn gadael ei ôl mewn modd gwahanol a pharhaol o ymgysylltu â ffydd ac addoliad yn y dyfodol. Wrth inni symud i mewn i hanner can niwrnod y Pasg, dewch inni benderfynu darganfod sut y gall neges Duw am fywyd newydd trwy'r Atgyfodiad ein helpu ni i ganfod pethau newydd mewn bywyd a thaith y ffydd fydd yn gwmni inni i'r dyfodol - nid yn unig ffyrdd o addoli, ond penderfyniadau trawsnewidiol am ein siwrne fel disgyblion a ddaw â ni'n agosach at yr Arglwydd yr Atgyfodiad ac agor ein calonnau fwyfwy i'r gras a'r nerth a'r ffydd y mae'n dyheu i rannu â ni.

Annwyl ffrindiau, cadwch yn iach a chadwch yn ddiogel yn ystod y cyfnod hwn, a boed i'r Arglwydd Atgyfodedig eich cynnal mewn ffyrdd annisgwyl, i godi llethdod ofn trwy oleuni ei gariad,

Esgob Llanelwy